

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF

Cofnodion o Gyfarfod Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a gynhaliwyd yn Swyddfeydd Cyngor y Fwrdeistref Sirol, Y Pafiliynau, Parc Hen Lofa'r Cambrian, Cwm Clydach, ddydd Mercher, 28 Chwefror 2018 am 5pm.

YN BRESENNOL

Y Cyngorydd Bwrdeistref Sirol M.Tegg – Maer

Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol

L.M.Adams	M.Griffiths	M.J.Powell
S.Belzak	J.Harries	S.M.Powell
D.R.Bevan	G.Holmes	S. Rees-Owen
H.Boggis	L.Hooper	A.Roberts
J.Bonetto	G.E.Hopkins	J.Rosser
S.A.Bradwick	P.Howe	R.Smith
G.Caple	G.W.Hughes	G.Stacey
A.Chapman	J.James	E.Stephens
A.G.Cox	P.Jarman	M.Tegg
A.Crimmings	K.L.Jones	G.Thomas
J.L.Cullwick	L.Jones	W.Treeby
G.R.Davies	R.Lewis	R.K.Turner
A.Davies-Jones	W.Lewis	L.Walker
L.De Vet	C.Leyshon	M.Weaver
M.Diamond	D.Macey	M.Webber
J.Elliott	A.Morgan	E.Webster
S. Evans	K.Morgan	G.D.G.Williams
M.Forey	S.Morgans	D.H.Williams
A.S.Fox	M.Norris	J.Williams
E.George	D.Owen-Jones	T.Williams
D.Grehan	S.Pickering	C. J. Willis
	S.Powderhill	R.Yeo

Swyddogion oedd yn bresennol

Mr C.Bradshaw – Prif Weithredwr

Mr C.Lee – Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen

Mr A.Wilkins - Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol – Gwasanaethau Corfforaethol
a Llywodraethol

Mr C.Hanagan - Cyfarwyddwr - Y Cabinet a Chysylltiadau Cyhoeddus

Mr R.Evans – Cyfarwyddwr Materion Adnoddau Dynol

Ms K.May – Pennaeth y Gwasanaethau Llywodraethol

95 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol J.Brencher, A.Calvert, J.R.Davies, S.M.Evans, M.Fidler Jones, H.Fychan, G.Jones, S.Rees

96 DATGAN BUDDIANNAU

PENDERFYNWYD - nodi yn unol â Chod Ymddygiad yr Aelodau y datganiadau canlynol o fuddiant a wnaed yn y cyfarfod yn ymwneud â'r agenda:-

- Y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol D.R.Bevan - Eitem 7 ar yr Agenda - Cynllun Lles Cwm Taf 2018/2023 - "Rydw i wedi cael caniatâd gan y Pwyllgor Safonau i siarad a phleidleisio ar y mater yma".
- Y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol P.Jarman - Eitem 9 ar yr Agenda - Strategaeth Cyllideb Refeniw 2018/2019 y Cyngor - "Rydw i wedi cael caniatâd gan y Pwyllgor Safonau i siarad a phleidleisio ar bob mater yn ystod proses cyllideb 2018/19 ac yn ystod ei mabwysiadu".
- Y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol G.R.Davies - Eitem 12 ar yr Agenda - Darparu Cynhyrchion Glanweithiol mewn Ysgolion o fewn RhCT (Rhybudd o Gynnig) - Adroddiad Terfynol - "Rydw i'n gwerthu'r cynhyrchion penodol hynny".

97 CYHOEDDIADAU

- (1) Roedd y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol A.G.Cox yn dymuno llongyfarch ac anfon ei ddymuniadau gorau i Ysgol Gynradd Gymraeg Llwyncelyn a oedd wedi cyrraedd rownd derfynol 'Song of Praise - Young Choir of the Year'. Roedd yr ysgol i fod i deithio i Fangor i gael ei ffilmio ar gyfer y gystadleuaeth. Serch hynny, roedd yn rhaid gohirio'r trip tan fis Mawrth o ganlyniad i'r tywydd garw.
- (2) Rhoddodd y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol P.Jarman wybod i'r Aelodau, yn dilyn ymlaen o Gyfarfod y Cyngor a gafodd ei gynnal ar 17 Chwefror, 2018 (mae Cofnod Rhif 86 (1) yn cyfeirio ato) pan gafodd ei gyhoeddi y byddai chwaer y Cynghorydd E.Stephens, Rachel Stephens, yn ymddangos ar y gyfres deledu newydd, `All Together Now`. Bellach, roedd Rachel wedi cyrraedd y rowndiau terfynol a oedd i'w darlledu ddydd Sadwrn 3 Mawrth, 2018.
- (3) Dywedodd y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol D.Grehan ei fod yn gwneud y cyhoeddiad yma ar ran y Cynghorydd H.Fychan. Nid oes modd iddi hi fod yn bresennol heno, gan fod bod Swyddfa'r Post Pontypridd wedi agor a bod llawer o bobl wedi llofnodi'r Ddeiseb a gafodd ei threfnu gan Blaid Cymru. Nododd mai ateb tymor byr oedd hwn ac roedd y Swyddfa Bost yn chwilio am ateb tymor hir gyda chymorth gan eraill.

- (4) Hysbysodd y Maer, y Cyngorydd Bwrdeistref Sirol M.Tegg yr Aelodau y byddai'n gadael y cyfarfod yma'n gynnar gan fod ganddi hi ymrwymiad arall.

98 **DEISEB**

Cyflwynodd y Cyngorydd Bwrdeistref Sirol J.Harries ddeiseb i'r Maer, ar ran trigolion Cwm Rhondda Fach yn gofyn am ail-gyflwyno'r gwasanaeth bws X8 bob awr rhwng Y Maerdy a Chaerdydd ac am gyflwyno gwasanaeth rheilffordd newydd rhwng Y Maerdy a'r Porth.

99 **MUNUD**

PENDERFYNWYD – Cadarnhau cofnodion o gyfarfod y Cyngor, a gynhaliwyd ar 17 Ionawr 2018, yn rhai cywir, yn amodol ar:-

- Y Cyngorydd H.Fychan yn cael ei rhestru'n bresennol.
- Y Cyngorydd J. Harries yn cael ei ddileu o'r rhestr o'r Aelodau hynny a wnaeth ddatganiad (gweler Cofnod Rhif.85).
- Mewn ymateb i'r cwestiwn atodol Cofnod Rhif 88(c) sy'n darllen "...nad yw'r halen **penodol** sy'n cael ei ddefnyddio gan y Cyngor yn gweithio os ydy'r tymheredd yn cwmpo o dan **-9**".

100 **DATGANIADAU**

- (1) Rhoddodd Arweinydd y Cyngor, y Cyngorydd Bwrdeistref Sirol A.Morgan adroddiad cynnydd llafar ar y Fargen Ddinesig. Dywedodd y byddai'r Gronfa Buddsoddi Ehangach Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn cefnogi nifer o gynlluniau gan gynnwys yr isod a thros amser byddai'n creu tua 25,000 o swyddi:-

- Y Prosiect Metro Canolog
- Y Gronfa Buddsoddi Tai Rhanbarthol
- Strategaeth Ddigidol
- Sgiliau ar gyfer y Dyfodol

Gwnaeth Arweinydd y Cyngor sylwadau ar bob un o'r cynlluniau uchod a dywedodd y byddai pob un o'r deg Awdurdod Lleol yn mynd â'r Cynllun Busnes pum mlynedd i'w gymeradwyo gan eu Cyngorau ym mis Mawrth eleni. Mae hyn wedi cael ei gytuno'n ddiweddar gan y Cabinet ar y Cyd.

- (2) Hysbysodd Arweinydd y Cyngor, y Cyngorydd Bwrdeistref Sirol A.Morgan yr Aelodau am y trefniadau a oedd yn eu lle ar gyfer y tywydd garw sydd wedi'i ragweld dros y 48 awr nesaf. Bydd pob ysgol yn Rhondda Cynon Taf ar gau ddydd Iau a dydd Gwener, 1 a 2 Mawrth. Felly, mae Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol wedi cael ei atal yn ystod y cyfnod yma. Bydd Pryd-ar-glud yn cael eu dosbarthu ddydd Iau (1 Mawrth) a bydd prydau wedi'u rhewi yn cael eu dosbarthu i'r rhai sy'n derbyn Pryd-ar-glud ar ddydd Iau ar gyfer

dydd Gwener, dydd Sadwrn a dydd Sul. Pe bai'r Swyddfa Dywydd yn rhoi rhybudd coch, yna byddai'r Prif Weithredwr yn gwneud y penderfyniad i gau Swyddfeydd y Cyngor, Canolfannau Dydd a Chanolfannau Hamdden ac ati.

101 CWESTIYNAU GAN Y CYNGHORWYR

(a) Cwestiwn gan y Cyngorydd Bwrdeistref Sirol D.Williams i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion Menter, Datblygu a Thai (y Cyngorydd Bwrdeistref Sirol D.R. Bevan)

"A fydd yr Aelod o'r Cabinet yn darparu adroddiad cynnydd ar ailddatblygu safle Dyffryn Taf?"

Ymateb gan Y Cyngorydd Bwrdeistref Sirol R.Bevan

"Byddaf yn nodi'r wybodaeth gronolegol - cafodd yr achos busnes ei gyflwyno i'r Cabinet ar 21 Tachwedd a chyflwynwyd adroddiad i'r Cyngor ar 29 Tachwedd. Cafodd y bont droed ei chyflwyno i Gabinet Pwyllgor Cofeb Rhyfel Ynysangharad. Cafodd £10 miliwn o gyllid datblygu adfywio ei dderbyn ym mis Tachwedd 2017 ac mae'r swm llawn yn cael ei ddisgwyl heddiw. Dechreuodd gwaith ar 8 Ionawr.

Dyddiadau allweddol sydd i ddod - ym mis Mawrth bydd Gweinidog Cymru dros Dai ac Adfywio yn ymweld. Bydd gwaith adeiladu hefyd yn cychwyn ym mis Mawrth a bydd gwaith gosod pyst yn dechrau yn y Gwanwyn. Bydd craeniau'n cael eu codi ar y safle eleni. Yn amodol ar ganiatâd cynllunio, bydd y gwaith yn dechrau yn Haf 2019 a'r dyddiad targed ar gyfer cwblhau yw Gaeaf 2020".

Cwestiwn Ategol gan Y Cyngorydd Bwrdeistref Sirol D.Williams.

"Diolch ichi ar ran fy Ward a diolch i'r Weinyddiaeth am y gwaith sydd wedi'i wneud wrth wthio hyn ymlaen. Mae'r gwaith wedi cael ymateb cadarnhaol yn lle ymateb negyddol ac mae'r sylwadau ar y Cyfryngau Cymdeithasol yn ofnadwy. Diolch ichi am roi gwahoddiad i mi i'r fforwm".

Ymateb gan Y Cyngorydd Bwrdeistref Sirol R.Bevan

"Mae'n bwysig ein bod ni wedi sefydlu'r fforwm a gwnaethom ni'r un peth gyda'r Lido. Roedd y cyfarfodydd yn llwyddiannus yn achos y Lido. Gan wybod sut mae'r Cyfryngau Cymdeithasol yn gweithredu, mae'n allweddol bod yr wybodaeth gywir yn cael ei rhoi i Aelodau".

(b) Cwestiwn gan y Cyngorydd Bwrdeistref Sirol S.Belzak i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion yr Amgylchedd a Hamdden (y Cyngorydd Bwrdeistref Sirol A. Crimmings)

"O ystyried penderfyniad y llywodraeth yn ninas Beijing i gau'r drws ar 1 Ionawr, 2018 i wastraff y mae modd ei ailgylchu o'r DU a 27 yr UE, ac o ystyried yr oedd 65% o wastraff plastig y mae modd ei ailgylchu (yn ogystal â llawer o wastraff y mae modd ei ailgylchu o gategoriâu eraill) yn cael ei gymryd gan wlad Tsieina, pa gyfran o'r gwastraff sydd wedi'i wahanu ar gyfer ailgylchu gan drigolion Rhondda Cynon Taf mae hi'n disgwyl i gael ei ailgylchu (yn hytrach na'i losgi neu ei roi ar safle tirlenwi) yn ystod y flwyddyn galendr bresennol, sef 2018?"

Ymateb gan y Cyngorydd Bwrdeistref Sirol A.Crimmings

Dydw i ddim yn disgwyl unrhyw gwmp mewn lefelau ailgylchu deunyddiau sych cymysg o gymharu â blynyddoedd blaenorol.

Gwnaethom ni ymdrech sylweddol i sefydlu marchnadoedd amgen ar gyfer y deunyddiau ymhell cyn torbwynt Llywodraeth Tseina yn Ionawr 2018.

Mae gan RhCT blastig cymysg a ffibrau sy'n cael eu hystyried i fod o ansawdd gweddol uchel ac mae gennyn ni gcontractau tymor hir mewn lle gyda chwmnïau sy'n eu prosesu. O ganlyniad i hyn, chawson ni fawr o broblem wrth sefydlu canolfannau Ewropeidd a'r DU ar gyfer y gwastraff.

Yr unig effaith sylweddol bydd y ffaith bod Tsieina yn gwrthod ailgylchu gwastraff yn ei chael fydd gyrru prisiau cyffredinol y farchnad i lawr. Serch hynny, nid yw'r costau tunelledd rhagamcanol yn agos at fod mor uchel â chostau tirlenwi neu losgi. Bydd ailgylchu, hyd yn oed am gost, yn dal i fod yn fwy dymunol o ran cost ac o ran yr hierarchaeth wastraff.

Ar y canrannau cyn ac ar ôl y newidiadau yn y casgliad ailgylchu sydd am gael ei weithredu

- os nad oes newid - ni fyddai disgwyl i lefelau ailgylchu fynd uwchlaw'r lefel gyfredol o 63%

- gyda'r newidiadau, byddwn i'n disgwyl, unwaith bod y newidiadau wedi'u sefydlu, i weld y ffigur yn codi i fod yn agosach at 70%.

Cwestiwn Ategol gan y Cyngorydd Bwrdeistref Sirol S.Belzak

"A fyddech chi'n cytuno y gallai tipio anghyfreithlon gynyddu?"

Ymateb gan y Cyngorydd Bwrdeistref Sirol A.Crimmings

"Gobeithio ddim, mae Swyddogion RhCT yn rhagweithiol yn dod o hyd i droseddwr ac ni fydden nhw'n petruso rhag erlyn. Rydyn ni wedi cynnal ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth trawiadol a neges RhCT i unrhyw droseddwr yw dydyn ni ddim yn goddef tipio anghyfreithlon".

c) Gan y Cyngorydd Bwrdeistref Sirol S.M.Powell i Arweinydd y Cyngor (y Cyngorydd Bwrdeistref Sirol A.Morgan).

"Pa drafodaethau mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi eu cael am effaith Brexit ar Lywodraeth Leol?"

Ymateb gan y Cyngorydd Bwrdeistref Sirol A.Morgan

"Yn y Bwrdd Arweinwyr ar y Cyd lle mae 22 Arweinydd Awdurdodau Cymru yn cwrdd bob mis. Bydd yna effaith. Dydyn ni ddim wedi gadael yr UE eto. Bydd y gwaith y mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi bod yn ei wneud yn parhau ond mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru bellach yn cau swyddfa ym Mrwsel.

Does dim Cwestiwn Ategol gan Y Cyngorydd Bwrdeistref Sirol S.M.Powell

(d) Cwestiwn gan y Cyngorydd Bwrdeistref Sirol D.Grehan i'r Dirprwy Aelod o'r Cabinet ar faterion Ffyniant a Llesiant (y Cyngorydd Bwrdeistref Sirol R. Lewis)

"A all yr Aelod o'r Cabinet sydd â chyfrifoldeb am ganolfannau cymunedol, y Cyngorydd Rhys Lewis, roi rhyw syniad inni am ddisgwyliad oes Canolfan Gymunedol Tonyrefail nawr bod y grŵp a oedd yn cyfarfod yno bob dydd wedi cael ei orfodi allan o'r adeilad?"

Ymateb gan y Cyngorydd Bwrdeistref Sirol R.Lewis

"Uchelgais y Cyngor yw i ganolfannau cymunedol gynnig amrywiaeth o wasanaethau i'n trigolion. Mae'r garfan `RhCT Gyda'n Gilydd` ac eraill fel y sector gwirfoddol yn rhoi cyngor a chefnogaeth i'r canolfannau hynny. Fe wyddoch fod Canolfan Gymunedol Tonyrefail wedi cael ei defnyddio gan grŵp o unigolion ag anableddau dysgu. Mae'r grŵp cleientiaid yma'n symud i Ganolfan Oriau Dydd y Gilfach-goch gan i asesiad gael ei wneud o'r adeilad a phenderfynwyd y byddai'r adeilad yn y Gilfach-goch yn fwy addas. Ni chafodd unrhyw gamau gorfodi eu gweithredu na'u hawgrymu. Roedd yn benderfyniad gweithredol. Nid oes unrhyw gynlluniau i gau'r ganolfan".

Cwestiwn ategol gan y Cyngorydd Bwrdeistref Sirol D.Grehan

"Fy nealltwriaeth i o'r sefyllfa yw bod y ganolfan gymunedol wedi methu ar sail lechyd a Diogelwch. Mae hi'n amser anodd i lywodraeth leol - mae pob awdurdod lleol yn dioddef o ganlyniad i doriadau'r llywodraeth Doriaidd. Mae pobl yn teimlo'n bryderus yng ngoleuni'r penderfyniad i gau Canolfan Oriau Dydd San Siôr. Rydw i'n falch bod gan Ganolfan Gymunedol Tonyrefail ddyfodol. Rydw i'n gobeithio, wrth edrych i'r dyfodol, bydd y Cyngor yn ceisio sicrhau bod asedau cymunedol yn cael eu gwarchod o dan Ddeddf Llesiant

Cenedlaethau'r Dyfodol. Allwch chi gadarnhau pan gafodd gwiriad lechyd a Diogelwch ei gynnal, ni wnaethon nhw gynnal prawf o'r larwm tân? Mae gennyn ni ddeddfwriaeth o dan Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995, felly pam wnaethon nhw ddim gwneud hyn?"

Ymateb gan y Cyngorydd Bwrdeistref Sirol R.Lewis

"Rydw i'n rhannu eich teimladau chi am Donyrefail. Mae hyn wedi ei achosi gan gynni cyllidol. Roedd angen adleoli grwpiau o'r ganolfan oherwydd problemau mynediad, nid oherwydd materion iechyd a diogelwch o reidrwydd. Mae yna broblem mynediad yno ond nid oes bygythiad tymor hir i'r ganolfan. Ar hyn o bryd mae Canolfan Oriau Dydd San Siôr yn destun proses ymgynghori. Mae hynny y tu allan i'm portffolio ac rwy'n awgrymu eich bod chi'n gofyn i'r Aelod Cabinet sydd â chyfrifoldeb am hyn".

(e) Gan y Cyngorydd Bwrdeistref Sirol L.M.Adams i Gadeirydd y Pwyllgor Craffu ar faterion Plant a Phobl Ifainc (y Cyngorydd Bwrdeistref Sirol S. Rees-Owen)

"A wnaiff Cadeirydd y Pwyllgor Craffu ar faterion Plant a Phobl Ifainc ddatganiad am flaenoriaethau eich Pwyllgor?"

Ymateb gan Y Cyngorydd Bwrdeistref Sirol S.Rees-Owen

"Blaenoriaethau'r Pwyllgor Craffu ar faterion Plant a Phobl Ifainc yw sicrhau bod y gwasanaethau sy'n cael eu darparu ar gyfer plant a phobl ifainc ar draws RhCT yn addas i'r pwrpas a nodi meysydd sydd angen eu gwella. Byddwn i'n eich cyfeirio at Raglen Waith y Pwyllgor. Mae hon wedi cael ei hadrodd i'ch Pwyllgor ac i gyfarfodydd o Gadeiryddion ac Is-gadeiryddion y pwyllgorau craffu".

Cwestiwn ategol gan y Cyngorydd Bwrdeistref Sirol L.Adams

"Rydw i a fy Is-gadeirydd wedi eistedd ar eich Pwyllgor a Phwyllgorau Craffu eraill er mwyn rhoi anogaeth a chefnogaeth. Ydych chi'n teimlo eich bod chi'n cael eich cefnogi?"

Ymateb gan Y Cyngorydd Bwrdeistref Sirol S.Rees-Owen

"Rydw i'n Gadeirydd newydd ac mae llawer o Aelodau newydd ar fy mhwyllgor, yn wir, mae 10 allan o 11 yn newydd i'r Pwyllgor. Rydyn ni'n dysgu gweithio gyda'n gilydd. Mae gen i berthynas waith da gyda Swyddogion allweddol. Rydw i'n gweld bod y cyfarfodydd o Gadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu yn ddefnyddiol iawn gan ein bod ni'n gwybod beth sy'n digwydd ar Bwyllgorau'n gilydd. Rydw i'n gwybod eich bod chi a'ch Is-gadeirydd yn mynychu fy nghyfarfodydd ac rydw i'n mynychu cyfarfodydd o'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu. Fe wnes i gyfarfod â'r Aelod o'r Cabinet ar

faterion Addysg a Dysgu Gydol Oes yr wythnos hon. Roedd yn gyfarfod busnes ac roeddwn i'n gallu dweud wrth yr Aelod o'r Cabinet beth roedden ni'n ei wneud ar fy Mhwyllgor i. Roedd yna hefyd gyfarfod â Swyddfa Archwilio Cymru. Mynychais i ynghyd â Chadeiryddion Pwyllgorau Craffu eraill a chi. Rydw i'n teimlo fy mod yn cael cefnogaeth dda".

101 CYNLLUN LLESIANT CWM TAF 2018-2023

Cyflwynodd y Prif Weithredwr 'Cynllun Llesiant Cwm Taf 2018-2023' Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf i Aelodau yn unol â gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Cafodd adroddiad y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn cynghori Aelodau o'r broses o ddraffio'r cynllun ei gynnwys gydag adroddiad y Prif Weithredwr fel Atodiad 1 ac ychwanegwyd y Cynllun Llesiant ato.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** - nodi a chymeradwyo Cynllun Llesiant Cwm Taf.

Noder: Yn y fan yma yn y cyfarfod (6.07 p.m.) gadawodd y Maer y Gadair a chymerodd y Dirprwy Faer ei lle gan yr oedd ganddi ymrwymiad arall.

ADRODDIAD Y CYFARWYDDWR - Y CABINET A CHYSYLLTIADAU CYHOEDDUS

102 ENWEBIADAU AR GYFER RHYDDFRAINT Y FWRDEISTREF SIROL

Yn ei adroddiad, dywedodd Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Swyddfa'r Cabinet a Chysylltiadau Cyhoeddus wrth yr Aelodau am y trafodaethau a gafodd eu cynnal yn y cyfarfod o'r Gweithgor Rhyddfraint y Fwrdeistref ar 15 Chwefror, 2018, lle ystyriwyd yr enwebiad a gafodd ei dderbyn mewn perthynas ag RAF Sain Tathan. Yn y cyfarfod yma, ehangodd yr aelodau'r enwebiad i gynnwys Yr Awyrlu Brenhinol (RAF) ac RAF Sain Tathan er mwyn cydnabod yr aberth eithaf a roddodd llawer o ddynion a menywod yr awyrlu er mwyn rhyddid y Sir. Hefyd, bydd yn nodi canmlwyddiant Yr Awyrlu Brenhinol a Phen-blwydd RAF Sain Tathan yn 80.

Hysbysodd Cyfarwyddwr - Y Cabinet a Chysylltiadau Cyhoeddus yr Aelodau, yn dilyn cyfarfod y Gweithgor, bod cais am gyngor gan y Llu Awyr Brenhinol wedi cael ei wneud mewn perthynas â'r anrhydedd. Cafodd Swyddogion eu cynghori nad oedd modd i'r Awyrlu Brenhinol dderbyn anrhydedd o'r fath oherwydd protocol yr Awyrlu Brenhinol.

Yn y cyfarfod, cafodd Aelodau eu hysbysu, yn dilyn trafodaethau anffurfiol gyda'r Awyrlu Brenhinol, ei fod yn annhebygol y byddai seremoni gyflwyno Rhyddfraint y Fwrdeistref yn digwydd yn ystod y flwyddyn Cyngor yma. Bydd

yr achlysur yn digwydd ym mis Mehefin, 2018 gan mai dyma'r Canmlwyddiant.

PENDERFYNWYD - Cefnogi argymhelliad Gweithgor Rhyddfraint y Fwrdeistref i gyflwyno anrhydedd Rhyddfraint y Fwrdeistref Sirol i RAF Sain Tathan.

ADRODDIAD Y CABINET

103 STRATEGAETH CYLLIDEB REFENIW Y CYNGOR AR GYFER 2018/2019

Cyflwynodd Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen yr adroddiad mewn perthynas â Strategaeth Cyllideb Refeniw 2018/2019 y Cyngor ar ran y Cabinet. Roedd yr adroddiad hefyd yn egluro argymhellion y Cabinet mewn ymateb i ofynion y Cyngor yma o ran darparu adnoddau, er mwyn helpu Aelodau i benderfynu dyraniadau i wasanaethau penodol o fewn Cyllideb Refeniw y Cyngor, ynghyd â lefel Treth y Cyngor, ar gyfer y flwyddyn sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2017.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD**—

1. Nodi'r datganiad ysgrifenedig gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus (Alun Davies AC) a'r tabl ar setliad llywodraeth leol 2018/2019, yn Atodiad 1 i'r adroddiad;
2. Nodi'r addasiadau i'r gyllideb sylfaenol sy'n cael effaith yn 2018/19, fel sydd wedi'u crynhoi yn Nhabl 1;
3. Cymeradwyo'r cynigion ar gyfer strategaeth y gyllideb, fel sydd wedi'u crynhoi yn Nhabl 2 o'r adroddiad, sy'n cynnwys:
 - i. Mae swm effeithlonrwydd ychwanegol sydd wedi'i gytuno o £1.050 miliwn (yn ychwanegol at y £6 miliwn a gafodd ei gytuno ar y cam 'Setliad Dros Dro' ym mis Hydref 2017) ar gyfer 2018/19;
 - ii. Lleihad yn y lwfans cyllideb ar gyfer Cynllun Lleihau Treth y Cyngor o £0.500 miliwn;
 - iii. Defnyddio'r 'Gronfa Gweddnewid Gwasanaeth a Chynllunio Ariannol Tymor Canolig' fel arian pontio, sef cyfanswm o £1,022 miliwn ar gyfer 2018/19;
4. Cymeradwyo Tablau 3 a 4 yn Adran 10 o'r adroddiad fel sail ar gyfer dyrannu adnoddau i Gyllidebau Ysgolion Unigol, i Wasanaethau eraill y Cyngor, ac i fodloni ei ofynion ariannu corfforaethol;
5. Cytuno ar gynnydd yn Nhreth y Cyngor ar gyfer y flwyddyn ariannol sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2019 o 3.30%;

6. Cytuno ar gyllideb gyffredinol y Cyngor ar gyfer 2018/2019, er mwyn pennu Treth y Cyngor ar gyfer y flwyddyn ariannol sydd i ddod erbyn y terfyn amser statudol, sef 11 Mawrth 2018.

Nodyn: Mae'r Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol L.M.Adams, D.R.Bevan, H.Boggis, J.Bonetto, S.A.Bradwick, G.Caple, A.Crimmings, A.Davies-Jones, L.De Vet, J.Elliott, S.Evans, M.Forey, A.S.Fox, E.George, M.Griffiths, J.Harris, G.Holmes, G.E.Hopkions, G.W.Hughes, R.Lewis, W.Lewis, C.Leyshon, A.Morgan, S.Morgans, M.Norris, D.Owen-Jones, S.Pickering, S.Powderhill, S.M.Powell, A.Roberts, J.Rosser, R.Smith, G.Stacey, G.Thomas, W.Treeby, R.K.Turner, M.Webber, D.H.Williams, T.Williams, C.J.Willis a R.Yeo eisiau cael eu henwau wedi'u cofnodi eu bod wedi pleidleisio o blaid y cynnig uchod.

Roedd y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol M.J.Powell yn dymuno cofnodi ei fod wedi pleidleisio yn erbyn y cynnig uchod.

Hoffai'r Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol A.Chapman, A.G.Cox, J.L.Cullwick, G.R.Davies, M.Diamond, D.Grehan, L.Hooper, J.James, P.Jarman, K.L.Jones, L.Jones, D.Macey, K.Morgan, S.Rees-Owen, E.Stephens, M.Weaver, E.Webster a J.Williams gael eu henwau wedi'u cofnodi eu bod wedi ymatal rhag pleidleisio ar y mater uchod.

104 RHAGLEN GYFALAF TAIR BLYNEDD Y CYNGOR 2018/19 - 2020/21 YN CYNNWYS ADOLYGIAD O GRONFEYDD WRTH-GEFN SYDD WEDI'U CLUSTNODI

Cyflwynodd Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen yr adroddiad mewn perthynas â Rhaglen Gyfalaf arfaethedig y Cyngor ar gyfer 2018/19 tan 2020/21, yn dilyn cadarnhad o'r setliad llywodraeth leol ar gyfer 2018/19 ar ran y Cabinet.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD—**

1. Sylwi ar y manylion am setliad terfynol llywodraeth leol 2018/19 ar gyfer gwariant cyfalaf, yn Atodiad 1;
2. Cytuno i ryddhau balans cronfeydd wrth-gefn sydd wedi'u clustnodi fel sydd ym mharagraff 5.3 o'r adroddiad;
3. Cytuno i ddyrannu'r cyllid o Gronfeydd Wrth-gefn sydd wedi'u Clustnodi i'r blaenoriaethau buddsoddi sydd ym mharagraff 5.7 o'r adroddiad;
4. Cytuno ar y rhaglen tair blynedd 'graidd' arfaethedig, yn Atodiad 2 o'r adroddiad;

5. Cytuno ar y Rhaglen Gyfalaf tair blynedd arfaethedig gyfan, yn Atodiad 3 yr adroddiad sy'n cynnwys y cyllid nad yw'n gyllid craidd:-
- Benthg darbodus i gefnogi Cynlluniau Ysgolion yr 21^{ain} ganrif a phrosiect Datblygu Dyffryn Taf;
 - Grantiau cyfalaf ar gyfer cynlluniau penodol;
 - Cyfraniadau trydydd parti;
 - Adnoddau ychwanegol y Cyngor a gafodd eu dyrannu'n flaenorol i gefnogi cynlluniau a blaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol;
 - Manylion y blaenoriaethau buddsoddi ym mharagraff 5.7 yr adroddiad sy'n cael eu hariannu trwy ryddhau Cronfeydd Wrth Gefn wedi'u Clustnodi ym mharagraff 5.3 yr adroddiad.

ADRODDIAD CYFARWYDDWR CYFADRAN Y GWASANAETHAU CORFFORAETHOL A RHENG FLAEN

104 PENDERFYNIAD AR DRETH Y CYNGOR AR GYFER Y FLWYDDYN SY'N DOD I BEN 31 MAWRTH, 2019

Yn ei adroddiad, rhoddodd y Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen fanylion cyfrifiad Treth Cyngor yr Awdurdod ar gyfer y flwyddyn ariannol sy'n dod i ben 31 Mawrth, 2019, cyn pasio'r penderfyniadau statudol angenrheidiol.

PENDERFYNWYD -

1. Nodi lefel y praesept gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd ar gyfer De Cymru;
2. Nodi lefel y praesept y Cyngor Cymuned sydd yn Atodiad 1 yr adroddiad;
3. Pasio'r penderfyniadau ffurfiol Treth y Cyngor ar gyfer y flwyddyn ariannol yn dod i ben 31 Mawrth, 2019, fel y'i cynhwysir yn Atodiad 2 i'r adroddiad;
4. Nodi sylwadau'r Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen am gadernid yr amcangyfrifon a digonolrwydd cronfeydd ariannol arfaethedig fel sy'n cael eu nodi ym mharagraff 9.2 o'r adroddiad.

ADRODDIAD CYFARWYDDWR Y GWASANAETHAU CYFREITHIOL A LLYWODRAETHOL

105 ADRODDIAD INTERIM Y GWEITHGOR CRAFFU YN YMWNEUD Â DARPARIAETH NWYDDAU GLANWEITHIOL AM DDIM MEWN YSGOLION

Yn unol â Chofnod 51 Cyfarfod y Cyngor a Gynhaliwyd ar 20 Medi, 2017, cynhwysodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol adroddiad terfynol y Gweithgor Craffu sydd wedi'i sefydlu er mwyn gweithredu 'Darparu Cynhyrchion Glanweithiol am Ddim Mewn Ysgolion' wedi'i ddilyn gan Rybudd o Gynnig (fel y'i diwygiwyd) a gafodd ei fabwysiadu gan y Cyngor llawn ar 19 Gorffennaf, 2017.

Cadeiriodd Cadeirydd y Pwyllgor Craffu ar faterion Plant a Phobl Ifainc, Y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol S.Rees-Owen, gyfarfodydd y Gweithgor Craffu yn dilyn yr adolygiad a gafodd ei wneud. Roedd yr adolygiad yn seiliedig ar dystiolaeth ysgrifenedig ynghyd â'r gwerth sylweddol a gafodd ei roi ar sylwadau disgyblion a staff Ysgol Uwchradd Ioan Fedyddiwr yr Eglwys yng Nghymru ac Ysgol Gymuned Glynrhedynog pan wnaethon nhw fynychu ail gyfarfod y Gweithgor.

Wrth gloi, amlinellodd y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol S. Rees-Owen yr argymhellion fel y maen nhw wedi'u rhestru yn yr adroddiad terfynol. Roedd hi'n gobeithio y bydden nhw'n cael eu cefnogi a'u gweithredu gan y Cabinet a hoffai adael y sylwadau terfynol i'r Cyngor drwy ddangos DVD wedi'i animeiddio gan ddisgyblion Ysgol Gyfun Garth Olwg i'r Cyngor. Roedd hyn yn arbennig o berthnasol i'r Gweithgor wrth lunio eu hargymhellion i'r Cyngor.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD**—

1. Derbyn adroddiad interim y Gweithgor Craffu;
2. Cyfeirio canfyddiadau ac argymhellion y Gweithgor Craffu i'r Cabinet.

106 RHEOL GWEITHDREFN 8 Y CYNGOR (HYD Y CYFARFOD)

Hyd at bwynt yma y cyfarfod, **PENDERFYNWYD** parhau â'r cyfarfod yn unol â Rheol Gweithdrefn 8 y Cyngor er mwyn trafod gweddill yr eitemau ar yr agenda a pharhau â busnes y Cyngor.

ADRODDIAD YR YSGRIFENNYDD I'R CABINET

107 PENDERFYNIADAU GWEITHREDOL BRYG WEDI'U GWEITHREDU

Yn unol â pharagraff 17.2 (a) o'r Weithdrefn Drosolwg a Chraffu Rheolau fel y'i cynhwysir yng Nghyfansoddiad y Cyngor, adroddodd Ysgrifennydd y

Cabinet ar y Penderfyniadau Gweithredol Brys a ddygwyd ymlaen y tu allan i Bwyllgor y Cabinet yn ystod y cyfnod Hydref - Rhagfyr, 2017; a **PHENDERFYNWYD** - nodi'r wybodaeth sydd yn yr adroddiad .

ADRODDIAD CYFARWYDDWR Y GWASANAETHAU CYFREITHIOL A LLYWODRAETHOL

108 NEWID I AELODAETH Y PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU

Yn unol â Chofnod Rhif 2(2.2) Cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 17 Mai, 2017, adroddodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol ei fod wedi derbyn hysbysiad gan Grŵp y Gynghrair o newid yn ei aelodaeth o'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu. Bydd y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol L.Walker yn cael ei enwebu yn lle'r Cynghorydd Bwrdeistref Sirol G.Williams.

PENDERFYNWYD - nodi bod y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol L.Walker yn cael ei enwebu yn lle'r Cynghorydd Bwrdeistref Sirol G.Williams ar y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu.

109 RHYBUDD O GYNNIG

Ystyriwyd y Rhybudd o Gynnig canlynol sydd wedi'i gyflwyno yn enwau'r Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol M.Griffiths a J.Bonetto :-

"Mae'r Cyngor yma'n galw am ddatblygu cynlluniau i gefnogi seilwaith Cerbydau Carbon Isel (LCV) yn Rhondda Cynon Taf trwy:

- Sefydlu Gweithgor i edrych ar ddatblygiad y seilwaith yma a fydd yn adrodd argymhellion allweddol yn ôl i'r Cabinet.
- Lloio Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru i ariannu'r gwaith o ddarparu'r dechnoleg yma i gefnogi galw cyhoeddus yn y dyfodol a manteision amgylcheddol ehangach Cerbydau Carbon Isel.

Ar hyn o bryd nid oes unrhyw isadeiledd i wefrio Cerbydau Carbon Isel yn Rhondda Cynon Taf, ac mae'r argaeledd yn gyfyngedig ar draws Cymru. Mae Llywodraeth y DU wedi amlinellu cynlluniau i wahardd cerbydau petrol a disel erbyn 2040. Felly mae'n hanfodol bod datblygu seilwaith yn dechrau darparu ar gyfer galw cyhoeddus yn y dyfodol".

PENDERFYNWYD - Mabwysiadu'r Rhybudd o Gynnig.

110 RHYBUDD O GYNNIG

Ystyriwyd y Rhybudd o Gynnig canlynol yn enwau'r Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol M.Webber a S.Pickering. Yn unol â pharagraff 12.7(b) o Ran 4 o Gyfansoddiad y Cyngor cytunwyd i fewnosod y geiriau ychwanegol sy'n cael eu dangos mewn testun trwm:-

"Mae'r Cyngor yma'n ychwanegu ei gefnogaeth i Ymgyrch Genedlaethol Lucy's Law i wahardd **ffermio a gwerthu** cŵn bach drwy drydydd parti. Bydd y Cyngor yma'n ychwanegu ei enw at y rhestr gynyddol o sefydliadau cefnogol a bydd yn amlygu'r ymgyrch yn rhagweithiol i'n trigolion ar draws y Fwrdeistref Sirol. Mae'r Cyngor yma'n gofyn i Arweinydd y Cyngor ysgrifennu at Lywodraeth y DU a **Llywodraeth Cymru** gan gefnogi'r alwad am weithredu ar frys ar y mater yma. "

PENDERFYNWYD - mabwysiadu'r Rhybudd o Gynnig.

**M.TEGG
MAER**

**S.POWDERHILL
DIRPRWY FAER**

Daeth y cyfarfod i ben am 8.20pm.